OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 197 (Cy. 46)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberystwyth, Ceredigion) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed *21 Chwefror 2025*

Yn dod i rym *1 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gan y cynhelir digwyddiad perthnasol, sef Parêd Gŵyl Dewi, ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberystwyth, Ceredigion) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darnau o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 13:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor o'r enw Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol y Wig hyd at ei chyffordd â Ffordd y Môr a Rhodfa'r Gogledd yn Aberystwyth, Ceredigion.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd lwytho na dadlwytho ar unrhyw adeg ar ochrau'r darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

5. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Chwefror 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru